Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Griffith Jones**
**Heol Yr Orsaf**
**San Clêr**
**SA33 4BT**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2020**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Griffith Jones

Lleolir Ysgol Gynradd Griffith Jones ym mhentref San Clêr ger Caerfyrddin yn awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin. Mae'n darparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg i'w disgyblion mewn dwy ffrwd. Mae 333 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11oed ar y gofrestr, sy'n cynnwys 39 disgybl rhan amser ac amser llawn yn y meithrin. Mae 10 dosbarth oed sengl a 3 dosbarth oed cymysg yn yr ysgol. Mae mwyafrif y disgyblion yn mynychu'r adran Gymraeg a daw 32% o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir Cymraeg ar yr aelwyd.

Tros dreigl tair blynedd, tua 10% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol is na'r ganran genedlaethol, sy'n 18%. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 19% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig. Mae hyn yn ychydig is na'r ganran genedlaethol, sy'n 21%.

Penodwyd y pennaeth presennol ym mis Medi 2008 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf gan Estyn ym mis Gorffennaf 2013.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae gan yr ysgol awyrgylch hapus a chyfeillgar. Mae bron pob disgybl yn serchus a dangosant barch amlwg tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr. Maent yn dod i'r ysgol yn llawn brwdfrydedd i ddysgu. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn siarad yn fyrlymus am yr holl brofiadau a gânt ac yn ymfalchïo yn eu gwaith a llwyddiannau'r ysgol. Mae ymddygiad bron pob disgybl yn dda iawn.

Mae darpariaeth yr ysgol i ddatblygu iaith Gymraeg y disgyblion a'u gwybodaeth am eu hetifeddiaeth yn effeithiol. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwybod beth mae'n ei olygu i fod yn Gymry ac maent yn siarad Cymraeg yn hollol naturiol gyda balchder. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o ddiwylliant Cymru.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref a phwrpasol. O ganlyniad, mae arweinwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i gynnal y safonau da a welir ar draws yr ysgol ac i ysgogi gwelliannau. Mae yna ddiwylliant o waith tîm cryf yn bodoli ymhlith y staff cyfan, yn enwedig o ran sicrhau bod rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud y cynnydd disgwyliedig ac i gefnogi lles disgyblion.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod egwyddorion y cyfnod sylfaen ar waith yn llawn ym Mlwyddyn 2

A2 Sicrhau bod cyfleoedd cyson i ddisgyblion wneud dewisiadau ynglŷn â'u dysgu er mwyn datblygu fel dysgwyr annibynnol

A3 Codi safon gwaith disgyblion sy'n fwy abl eu gallu

A4 Gwella presenoldeb disgyblion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion, gan gynnwys y rheini ag anghenion addysgol arbennig, yn gwneud cynnydd cadarn wrth iddynt symud trwy'r ysgol.

Mae bron pob un disgybl yn y ddwy ffrwd yn gwrando'n astud ar oedolion ac ar ei gilydd. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau llafar yn effeithiol mewn ystod dda o weithgareddau. Yn y cyfnod sylfaen, maent yn trafod eu gwaith yn hyderus ac yn dangos parch at gyfraniadau ei gilydd. Mae llawer ohonynt yn awyddus i ddatblygu eu syniadau'n llwyddiannus o oed meithrin. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd maent yn dewis sain i gynrychioli cymeriadau yn stori Alun yr Arth. Wrth i'r disgyblion symud trwy'r ysgol, mae gan lawer ohonynt y medrau i drafod pynciau amrywiol yn aeddfed wrth iddynt ddadlau o blaid neu yn erbyn cael bwyty bwyd cyflym enwog yn y pentref. Maent yn datblygu i fod yn ddysgwyr dwyieithog medrus.

Ar ddechrau'r cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth ddefnyddiol o lythrennau a seiniau. Erbyn diwedd y cyfnod, mae gan bron bob un o'r disgyblion agweddau cadarnhaol tuag at ddarllen. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn rhugl a gyda chywirdeb yn y Gymraeg a Saesneg. Maent yn trafod cynnwys llyfrau yn fwriadus, ac yn dangos hoffter tuag at wahanol fathau o lyfrau. Mae ychydig iawn o ddisgyblion o'r ffrwd Saesneg yn darllen nofelau Cymraeg yn fedrus iawn ac yn eu trafod yn y Gymraeg yn hyderus. Er hynny, mae medrau darllen Cymraeg llawer o ddisgyblion yn y ffrwd Seasneg yn llai datblygedig. Maent yn esbonio'r testun yn syml ac yn ynganu geiriau'n gywir wrth ddarllen ar goedd.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y ddwy ffrwd yn gwneud cynnydd effeithiol yn eu medrau ysgrifennu mewn gwersi iaith ac, ar y cyfan, mewn pynciau eraill. Yn y meithrin, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creu marciau cynnar yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn dechrau dal pensiliau lliw yn gywir ac yn lliwio siapiau llythrennau yn ofalus. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n gywir mewn ystod gyfyng o arddulliau, er enghraifft wrth ysgrifennu disgrifiad manwl o bentref San Clêr.

Ar draws cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn strwythuro eu gwaith yn gywir yn y Gymraeg a'r Saesneg. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer yn ysgrifennu'n hyderus mewn amrediad o gyd-destunau ac yn cynhyrchu gwaith pwrpasol. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu adolygiad am eu hoff ffilm ac yn creu darnau ffeithiol, aeddfed gan ddefnyddio ystod o ffynonellau gwahanol i ddisgrifio bywyd ifaciwi. Mae medrau ysgrifennu Cymraeg ail iaith y disgyblion yn y ffrwd Saesneg yn datblygu'n briodol wrth iddynt ddisgrifio eu hunain, ysgrifennu dyddiadur am hanner tymor a mynegi eu barn am lygredd mewn pyllau glo. Er bod llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau llythrennedd yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm, ychydig iawn o ddisgyblion mwy abl sy'n cynhyrchu gwaith ysgrifennedig sy'n cyfateb i'w gallu. Mae llawysgrifen a chyflwyniad gwaith rhan fwyaf y disgyblion yn daclus.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn dilyn cyfarwyddiadau'n dda i ehangu eu gwybodaeth fathemategol yn effeithiol yn ystod gwersi. Enghraifft dda o hyn yw'r modd y mae disgyblion dosbarth derbyn yn defnyddio unedau ansafonol i fesur siapiau'n hyderus ac yn cofnodi'r rhif yn gywir. Mae rhan fwyaf y disgyblion ym Mlwyddyn 2 yn datblygu medrau priodol. Maent yn casglu a chyflwyno data am swyddi eu teulu ac yn ysgrifennu cyfarwyddiadau syml i ddarganfod sut i gyrraedd gwahanol siopau yn y pentref.

Mae medrau rhif rhan fwyaf y disgyblion cyfnod allweddol 2 yn datblygu'n dda ar eu dysgu blaenorol. Maent yn casglu gwybodaeth yn gywir ac yn ei chyflwyno mewn bas data am angenfilod chwedlonol, er enghraifft. Mae rhan fwyaf y disgyblion ym Mlwyddyn 6 yn defnyddio graffiau gwahanol i gyfleu gwybodaeth wyddonol yn effeithiol. Gall llawer o ddisgyblion defnyddio cyfesurynnau'n grefftus ac i ddatrys yr elw a wna ffermwyr masnach deg o'u cynnyrch yn llwyddiannus. Ar y cyfan, mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn defnyddio eu medrau rhifedd yn fwriadus mewn pynciau eraill ar draws y cwricwlwm.

Mae cynnydd ym medrau Technoleg, Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) rhan fwyaf o ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen yn addas. Er enghraifft, maent yn rhoi cyfarwyddiadau i anifail o'u dewis i symud o amgylch yr ardd ac yn defnyddio nifer o raglenni digidol i ddatblygu eu medrau rhif a llythrennedd yn bwrpasol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn defnyddio'u medrau TGCh yn fedrus mewn pynciau gwahanol. Maent yn dewis dulliau synhwyrol i gyflwyno'u gwaith yn effeithiol, fel defnyddio sgrin werdd er mwyn cyfleu sut i gadw'n ddiogel ar y we. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn creu cyflwyniadau addysgiadol am Ffrainc ac yn ychwanegu ffilmiau byrion yn hyderus. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn siarad yn wybodus am yr angen i gadw gwybodaeth bersonol yn ddiogel rhag pobl nad ydynt yn eu hadnabod.

## Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn falch o'u hysgol ac yn teimlo'n ddiogel yn ei hamgylchedd cynhwysol. Maent yn hapus i drafod unrhyw ofidiau gyda staff, a thrwy rannu eu teimladau drwy holiadur digidol dyddiol, maent yn hyderus bod oedolion yn gwrando arnynt ac yn ymateb yn brydlon i'w pryderon. Mae llawer o'r disgyblion yn ddiolchgar am y cyfleoedd eang a gynigir iddynt gan eu hathrawon.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrtais a pharchus at ei gilydd, at staff ac ymwelwyr. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion yn dal drysau ar agor i ymwelwyr, ac yn eu cyfarch yn gwrtais wrth gerdded o gwmpas yr ysgol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn symud o gwmpas yr ysgol yn drefnus ac yn siarad yn hyderus ag oedolion mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Mae ymddygiad bron pob disgybl yn arbennig.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion berthnasoedd gwaith cadarnhaol gydag oedolion. Maent yn gweithio'n galed ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol at ddysgu. Mae llawer o'r disgyblion yn cydweithredu'n dda ac yn dangos dyfalbarhad a gwydnwch wrth gwblhau tasgau pâr neu grŵp. Maent yn ymdawelu'n gyflym mewn gwersi ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn parhau i ganolbwyntio'n dda. Mae llawer o ddisgyblion yn deall y strategaeth '3 cyn fi' i'w helpu i ddatrys unrhyw heriau maent yn wynebu yn eu dysgu. Mae rhan fwyaf y disgyblion hŷn yn dechrau gwella eu gwaith yn

llwyddiannus ac mae ganddynt ddealltwriaeth gref o'u targedau i wella. Er eu bod yn dechrau cyfrannu tuag at beth yr hoffent ddysgu, prin yw eu cyfraniad at sut yr hoffent ddysgu a lleiafrif o ddisgyblion sy'n datblygu eu medrau i weithio'n annibynnol.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion dealltwriaeth gref o effaith bwyta'n iach, yfed dŵr a chadw'n heini ar eu corff. Er enghraifft, mae gweithgareddau'r llysgenhadon efydd i gynnal sesiynau ymarfer corff i ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu eu medrau corfforol yn dda. Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2, yn ogystal â'u gwersi ymarfer corff, yn manteisio ar y cyfle i fod yn rhan o dimau llwyddiannus yr ysgol fel pêl-doed, rygbi a nofio. Cyfranna hyn yn llwyddiannus at eu dealltwriaeth o sut i wella'u ffitrwydd a'u hiechyd corfforol.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau'n frwdfrydig ac maent yn datblygu medrau arwain yn llwyddiannus. Caiff disgyblion Blwyddyn 6, gan gynnwys y rhai ag anghenion addysgol arbennig, gyfle i gymryd rhan mewn grŵpiau 'llais y disgybl'. Mae gwaith diwyd y pwyllgor eco yn sicrhau bod gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ymwybyddiaeth gref o gynaliadwyedd. Er enghraifft, mae'r fenter newydd o redeg siop gyfnewid gwisg ysgol yn llwyddiant ysgubol ac yn cryfhau dealltwriaeth llawer o'r disgyblion o ailgylchu yn llwyddiannus. Mae'r cyngor ysgol yn ymgymryd â rôl weithredol mewn codi arian ar gyfer elusennau amrywiol, fel Plant mewn Angen.

Mae llawer o'r disgyblion yn datblygu'n ddinasyddion moesol a chydwybodol. Maent yn trefnu a chymryd rhan mewn nifer o weithgareddau amrywiol, fel canu mewn cartref preswyl cyfagos a chystadlu yn sioe amaethyddol yr ardal. Maent yn manteisio ar y cyfle i ofalu am eu cynefin drwy waith diwyd y clwb garddio a thrwy blannu coed ar dir yr ysgol yn llwyddiannus. Mae'r profiadau hyn yn cryfhau dealltwriaeth y disgyblion o faterion cymdeithasol ac anghenion pobl eraill yn llwyddiannus.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn deall pwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac maent yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon yn y boreau. Fodd bynnag, dros amser, nid yw cyfraddau presenoldeb disgyblion wedi cymharu cystal ag ysgolion tebyg.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae gan holl staff yr ysgol berthynas waith effeithiol gyda'r disgyblion, sy'n meithrin awyrgylch cadarnhaol a chefnogol ar gyfer dysgu. Mae'r parch sy'n bodoli rhwng y disgyblion a'r oedolion yn nodwedd bwysig o waith yr ysgol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo'r Gymraeg a Chymreictod yn effeithiol. Mae'r staff yn modelu iaith lafar dda sy'n dylanwadu'n effeithiol ar fedrau llafar y disgyblion. O ganlyniad, mae bron pob un disgybl yn datblygu'n ddysgwyr dwyieithog cymwys a hyderus yn y ffrwd Gymraeg. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau Cymraeg y disgyblion yn y ffrwd Saesneg yn datblygu'n raddol wrth i'r disgyblion symud o un cyfnod i'r llall. Mae'r staff yn cynllunio'n effeithiol i ddatblygu cwricwlwm sy'n seiliedig ar hanes, diwylliant ac etifeddiaeth Gymreig. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol ac yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddealltwriaeth y disgyblion o'u hardal leol, eu hanes a'u diwylliant, er enghraifft wrth astudio hanes merched Beca.

Mae'r athrawon yn cydweithio'n effeithiol i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn derbyn amrediad o brofiadau dysgu eang a diddorol. Mae'r themâu trawsgwricwlaidd yn ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth rhan fwyaf y disgyblion yn lled gyson ar draws yr ysgol. Enghraifft dda o hyn yw gwaith diweddar y disgyblion hŷn ar y twrch trwyth. Cyfoethogir y cwricwlwm yn effeithiol drwy gynnal ymweliadau addysgol i'r disgyblion i fannau diddorol, a thrwy ddefnyddio arbenigedd ymwelwyr. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 wedi ymweld ag Eglwys Llanddowror i ddysgu am waith Griffith Jones a'i ddylanwad yn yr ardal leol. Mae'r ysgol yn dechrau paratoi'n briodol ar gyfer mynd i'r afael ag agweddau o'r cwricwlwm newydd i Gymru.

Mae cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau llythrennedd ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 1, mae'r disgyblion yn ysgrifennu rysáit ar gyfer picau ar y maen yn annibynnol fel rhan o ddathliadau Dydd Gŵyl Dewi. Mae disgyblion Blwyddyn 4 yn cyfuno profiad awyr agored wrth ddilyn taith yr afon Taf o ben mynydd y Preseli i'r môr ac yna cofnodi nodweddion y tirwedd yn llwyddiannus. Mae'r cyfleoedd ar gyfer datblygu medrau rhifedd yn dda yng nghyfnod allweddol 2. Mae'r athrawon yn ailymweld â chysyniadau mathemategol mewn cyd-destun gwahanol; er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn dylunio cartref i bry lludw gan gyfrifo arwynebedd siapiau cyfansawdd yn gywir. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i ddatblygu medrau rhif mewn pynciau amrywiol yn y cyfnod sylfaen. Mae cynlluniau trwyadl i roi'r fframwaith cymhwysedd digidol ar waith, sy'n cael effaith gadarnhaol ar gynnydd medrau TGCh llawer o ddisgyblion.

Mae llawer o athrawon yn sicrhau rhediad da i'w gwersi. Maent yn gosod amcanion dysgu clir ac yn defnyddio ystod o adnoddau diddorol i ennyn diddordeb disgyblion. Yn yr enghreifftiau gorau, mae athrawon yn gosod tasgau heriol sy'n galluogi disgyblion i ddefnyddio'u gwybodaeth flaenorol a'u medrau meddwl yn effeithiol. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn ceisio datrys cyfeirnodau grid a phwyntiau'r cwmpawd i leoli safleoedd o bwys yn San Clêr. Mae rhan fwyaf o'r athrawon yn rhannu amcanion eglur ar gyfer gwersi a gwneir defnydd cyson o feini prawf llwyddiant er mwyn i'r disgyblion ddatblygu hyder wrth werthuso eu cynnydd eu hunain. Maent yn defnyddio technegau holi amrywiol yn effeithiol er mwyn ymestyn dealltwriaeth y disgyblion. Mae athrawon yn cynnig adborth llafar cynhwysfawr i'r disgyblion ac, ar y cyfan, mae strategaeth benodol yr ysgol o ran cynnig adborth ysgrifenedig yn helpu disgyblion i wella eu gwaith yn bwrpasol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu egwyddorion y cyfnod sylfaen yn effeithiol hyd at Flwyddyn 1. Yn y dosbarthiadau hyn, mae bron pob un o'r gweithgareddau sydd yn cael eu cynnig yn datblygu annibyniaeth y disgyblion ac yn hyrwyddo'r defnydd o'r ardal tu allan i ddatblygu medrau creadigol a chorfforol yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw'r egwyddorion wedi eu gwreiddio'n llawn ar gyfer disgyblion hŷn y cyfnod sylfaen.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan yr ysgol ethos hapus, gofalgar a chynhwysol lle mae pawb yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi. Mae'n gymuned gyfeillgar a theuluol sy'n hyrwyddo ymddygiad da, cwrteisi ac ymroddiad disgyblion yn llwyddiannus.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau trwyadl ar gyfer olrhain cynnydd a lles disgyblion ac mae staff yn eu diweddaru'n gyson i sicrhau bod y wybodaeth yn gyfredol a chywir.

Mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol i adnabod y disgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol ac yn addasu'r ddarpariaeth yn ôl y gofyn. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn fwriadus. Trwy nifer o weithgareddau llythrennedd, rhifedd a lles, mae'r staff yn sicrhau bod pob un disgybl yn derbyn y gefnogaeth angenrheidiol i lwyddo yn eu dysgu. Mae cynlluniau addysg unigol disgyblion yn cynnwys targedau clir sy'n cael eu gweithredu'n llwyddiannus gan athrawon a chymorthyddion i sicrhau bod rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn eu targedau. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau allanol er mwyn darparu cefnogaeth fuddiol i ddisgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig, fel y therapydd lleferydd.

Mae trefniadau ar gyfer ymateb i anghenion emosiynol a chymdeithasol disgyblion yn gadarn ac yn cael effaith dda arnynt. Mae disgyblion unigol a grwpiau penodol yn derbyn cefnogaeth bwrpasol i sicrhau eu bod yn magu hyder ac yn ymrwymo i weithgareddau ysgol. Enghraifft dda o hyn yw ymyrraeth lwyddiannus 'chwarae teg' sy'n sicrhau bod disgyblion bregus yn datblygu eu hyder i allu ymuno â'u cyfoedion amser chwarae a chinio.

Mae perthynas gefnogol yn bodoli rhwng y rhieni a'r ysgol. Caiff y rhieni eu hysbysu'n rheolaidd am weithgareddau a digwyddiadau'r ysgol drwy lythyron a chyfryngau cymdeithasol. Mae'r staff yn adnabod y disgyblion a'u teuluoedd yn arbennig o dda ac mae ganddynt berthnasoedd cadarnhaol iawn â bron pob un ohonynt. Yn ogystal â hyfforddiant amrywiol ar e-ddiogelwch a medrau rhifedd, mae'r rhieni'n gwerthfawrogi'r sesiynau 'galw heibio' wythnosol i drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau creadigol disgyblion yn effeithiol. Gwneir defnydd o artistiaid lleol a chanwr gwlad o Gymru i ehangu profiadau creadigol y disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r cyfleoedd niferus a buddiol i ddisgyblion berfformio a chymryd rhan mewn cyngherddau a chystadlu mewn eisteddfodau yn elfen gref yn yr ysgol ac mae hyn yn cyfrannu'n amlwg at fagu hunanhyder y disgyblion. Mae ymweliadau addysgol i leoedd diddorol fel castell Henllys a'r penwythnos preswyl i wersyll Pentywyn yn datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o hanes a thirwedd leol a thu hwnt yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol iawn ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r cwricwlwm, gwersi addysg gorfforol a gweithgareddau allgyrsiol niferus yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall manteision ymarfer corff rheolaidd yn arbennig o dda. Mae gan yr ysgol gyswllt gryf â'r gymuned gan fanteisio ar arbenigedd gwahanol unigolion ym maes iechyd a ffitrwydd. Er enghraifft, mae cricedwr cenedlaethol, sy'n gyn ddisgybl, yn cynnal sesiynau hyfforddi yn yr ysgol yn flynyddol.

Mae gwasanaethau a chynlluniau ar gyfer cyd-addoli yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn briodol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo perthynas agos a chynhyrchiol gyda'r eglwys leol wrth i ddisgyblion gymryd rhan mewn gwasanaethau cynhaeaf a Sul y Cofio. Mae'r ysgol yn hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a goddefgarwch yn effeithiol. Mae pwyslais amlwg ar hybu gwerthoedd cytûn ac mae hyn yn cael dylanwad cryf ar ymddygiad y disgyblion. Mae hawliau plant yn cael sylw addas ym mywyd dyddiol yr ysgol ac mae hawl y mis yn cyfrannu'n fuddiol at yr ymdeimlad o barch sy'n bodoli rhwng disgyblion ac oedolion. Fel rhan o waith brwd y pwyllgor masnach deg a chynllun e-gyfeillio gydag ysgolion eraill o gwmpas Ewrop, mae disgyblion hefyd yn gwerthfawrogi eu lle fel dinasyddion byd eang.

Mae gan yr ysgol drefniadau addas i wella presenoldeb, sy’n cynnwys gweithio’n agos â rhieni a’r awdurdod lleol. Fodd bynnag, nid yw’r trefniadau wedi cael digon o effaith i godi lefelau presenoldeb yr ysgol hyd yma.

Mae’r trefniadau diogelu yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae’r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth a rheolaeth gadarn. Mae hyn yn seiliedig ar weledigaeth sy’n canolbwyntio ar les disgyblion, datblygu'r Gymraeg, a gwella safonau. Mae holl staff yr ysgol yn gwireddu’r weledigaeth hon yn llwyddiannus. Mae’r uwch dîm rheoli yn cynnig cyfeiriad clir a chefnogol i’r staff er mwyn cynnal a chodi safonau.

Mae yna ddiwylliant cadarnhaol o waith tîm effeithiol yn bodoli yn yr ysgol. Mae gan aelodau’r staff gyfrifoldebau clir ac maent yn gweithredu eu rolau’n effeithiol. Mae’r athrawon brwdfrydig yn dangos ymrwymiad cryf i hyrwyddo gwelliannau parhaus a chynaliadwy trwy ddod at ei gilydd i drafod yn rheolaidd a chynllunio themâu ar y cyd. Mae pob aelod o staff yn rhannu perthnasoedd gwaith cadarnhaol a phroffesiynol sy’n cefnogi ethos gofalgar yr ysgol yn llwyddiannus.

Mae gan y pennaeth weithdrefnau rheoli perfformiad effeithiol ar gyfer athrawon a chymorthyddion sy’n seiliedig ar flaenoriaethau’r cynllun datblygu ysgol. Mae’n hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff yn llwyddiannus sy’n cael effaith gadarnhaol ar waith yr ysgol. Enghraifft dda o hyn yw effaith hyfforddiant y staff i fodloni gofynion y fframwaith cymhwysedd digidol ar y cynnydd amlwg ym medrau TGCh y disgyblion. Yn ogystal, mae’r cydlynydd anghenion addysgol arbennig wedi addasu’r ddarpariaeth yn effeithiol iawn ac wedi rhannu'r arferion da gydag ysgolion o fewn yr awdurdod lleol.

Mae gweithgareddau hunanwerthuso buddiol gan yr ysgol er mwyn adnabod eu cryfderau a meysydd i’w gwella. Mae’r adborth o’r gweithgareddau hyn yn cyfrannu’n uniongyrchol at wella safonau’r disgyblion. Ar y cyfan, mae’r cynllun gwella ysgol yn cynnwys nifer o flaenoriaethau synhwyrol. Mae’r arweinwyr yn adnabod gweithgareddau pwrpasol er mwyn bodloni’r blaenoriaethau ac yn clustnodi adnoddau a staff yn effeithiol er mwyn eu cwblhau. Dros amser, mae’r ysgol yn ymateb yn bwrpasol i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol, fel datblygu medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion ac i godi eu safonau llafar Cymraeg. Fodd bynnag, ar adegau, nid yw blaenoriaethau’r cynllun gwella yn cael digon o ddylanwad amserol, er enghraifft er mwyn bodloni gofynion llawn y cyfnod sylfaen ac i wella presenoldeb y disgyblion.

Mae’r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i’r ysgol ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o’u rolau a’u cyfrifoldebau. Mae ganddynt adnabyddiaeth dda o’r prif gryfderau a’r meysydd i’w gwella yn yr ysgol. Maent yn cyfrannu’n adeiladol i’r broses wella ac yn dyfnhau eu gwybodaeth am safonau a’r ddarpariaeth yn llwyddiannus. Gwnânt hyn drwy ymgymryd â theithiau dysgu, a thrwy gyfarfodydd gyda’r uwch dîm rheoli a chyda’u chyd-lywodraethwyr, er enghraifft mewn is-bwyllgorau cwricwlaidd. O ganlyniad, mae gan lywodraethwyr ystod ehangach o wybodaeth uniongyrchol am yr ysgol er mwyn datblygu eu rôl fel ffrindiau beirniadol.

Mae’r ysgol wedi ei staffio’n bwrpasol a gwneir defnydd da o arbenigedd unigolion i gyfoethogi profiadau dysgu’r disgyblion. Er enghraifft, maent yn defnyddio arbenigwyr i gynnig cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau chwaraeon a pherfformio. Mae’r ardaloedd dysgu dan do yn ddeniadol iawn ac yn hybu’r dysgu yn llwyddiannus. Mae gan yr ysgol ardaloedd awyr agored eang sydd wedi eu datblygu’n greadigol. Gwneir defnydd cyson o’r ardaloedd hyn er mwyn cynyddu lefelau ffitrwydd y disgyblion, er enghraifft.

Mae’r pennaeth, y swyddog gweinyddol a’r llywodraethwyr yn rheoli cyllideb yr ysgol yn ofalus. Mae penderfyniadau gwariant yn cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau strategol yr ysgol. Gwneir defnydd da o’r grant datblygu disgyblion i wella darpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd ac emosiynol disgyblion sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. O ganlyniad, mae’r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd cadarn o’u mannau cychwyn.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 14/05/2020